# rydym yn recriwtio

## uchafbwyntiau y swydd











# Swyddog ar Ddyletswydd - Gradd Gyrfa

## Gwybodaeth Hanfodol

**Cyflog** : £26,835-£ 32,654 y flwyddyn  y flwyddyn
**Oriau** : Llawn amser, 37 awr yr wythnos
**Contract** : Parhaol
**Lleoliad** : Canolfan Hamdden y Rhyl, Ffordd Grange, Y Rhyl, LL18 4BY

## Ynglŷn â'r Swydd

Yn y swydd hon, byddwch yn gyfrifol am ddarpariaeth a datblygiad yr holl wasanaethau a ddarperir gan Ganolfan Hamdden y Rhyl o ddydd i ddydd.
Gyda datblygiad gwerth £1 miliwn Clwb y Rhyl yn mynd rhagddo, mae'r safle'n dod yn un o'r prif ganolfannau ffitrwydd yn y rhanbarth, yn cynnwys ystafelloedd cryfder a chardio o'r radd flaenaf, stiwdio HIIT, stiwdio arloesol, stiwdio Clwb Seiclo, ardal ymarfer Box 12 a ysbrydolir gan focsio ac ystafell gyflyru. Rhwng rhaglen dysgu nofio lwyddiannus, neuaddau chwaraeon a chaeau pob tywydd, mae Canolfan Hamdden y Rhyl yn darparu rhaglen amrywiol i ysgolion, clybiau a'r gymuned leol.
Byddwch chi hefyd yn cynnig arweiniad ac yn rheoli holl aelodau staff y safle, gan gynnwys bod yn gyfrifol am drefnu staff llanw pan fo rhywun yn sâl neu ar wyliau, trefnu rotas staff, a pherfformiad staff o ddydd i ddydd.
Yn y swydd hon byddwch chi hefyd yn gyfrifol am:

- Ddiogelwch yr adeilad
- Diogelwch staff a chwsmeriaid
- Incwm ac arian a dderbynnir
- Cysylltiad â chlybiau, grwpiau gwirfoddol ac ysgolion
- Datblygu rhaglen a chynnig y safle

Bydd disgwyl i chi hefyd ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyffredinol ac ymateb i alwadau y tu allan i oriau agor arferol.
Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd rydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly rydym yn disgwyl i chi gymryd perchnogaeth dros y safle, a sicrhau ei fod yn lân, yn daclus, ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio trwy'r amser.
Dyma gyfle gwych i unrhyw un sy'n dymuno cymryd y cam nesaf fel gweithiwr hamdden proffesiynol, gyda llwybr gyrfa sy'n cynnig cyfle i ddatblygu drwy brofiad a dysgu.

**Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**



# Swyddog ar Ddyletswydd - Gradd Gyrfa

## Amdanoch Chi

Mi fyddwch chi'n arweinydd ysbrydoledig, ac yn llawn angerdd a brwdfrydedd i ddatblygu staff a'r busnes. Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau pobl rhagorol, bydd yn unigolyn trefnus iawn ac yn gallu defnyddio'i fenter ei hun i ddatrys problemau.

Yn ddelfrydol, bydd gennych chi brofiad o weithio mewn cyfleuster hamdden, ffitrwydd neu iechyd a chymhwyster lefel 3 perthnasol. Fodd bynnag, ar gyfer ymgeisydd sy'n rhannu ein gwerthoedd ac yn meddu ar sgiliau arwain ardderchog, byddwn yn darparu hyfforddiant ar elfennau penodol o'r swydd e.e. gwybodaeth am y pwll a sut i ddefnyddio ein systemau, ac felly bydd arnoch chi angen awch i ddysgu a datblygu.

Mae'r swydd hon yn golygu rheoli tîm o staff ac felly mae sgiliau arweinyddiaeth yn bwysig. Dyma'r sgiliau arwain rydym ni'n chwilio amdanynt:

- Gallu ysbrydoli, ysgogi a grymuso eraill
- Angerdd a chymhelliant i gyflwyno gwasanaethau ardderchog i gwsmeriaid
- Dibynadwyedd a gwytnwch
- Gonestrwydd, a gallu cymryd cyfrifoldeb a gofyn am gymorth pan fo angen

Os ydych chi'n berson cyfeillgar, yn arweinydd sy'n canolbwyntio ar bobl ac arnoch chi eisiau dringo'r ysgol yrfa a gweithio mewn cwmni prysur a hynod lwyddiannus, yna gallai hon fod yn swydd berffaith i chi.




# Swyddog ar Ddyletswydd - Gradd Gyrfa

## Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy’n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd




# Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

**Lleoliad**: Canolfan Hamdden y Rhyl, Ffordd Grange, Y Rhyl, LL18 4BY

**Dyddiad Cau**: 19.02.25

**Ymgeisiwch ar ein gwefan**: https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/

CLWB RHYL